**DOGFENNAU SY'N MYND GYDA'R BIL**
**Caiff Nodiadau Esboniadol a Memorandwm Esboniadol eu hargraffu ar wahân.**

# Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

## CYNNWYS

*Hybu IAP*

1 Dyletswydd Gweinidogion Cymru i hybu IAP

*Strategaeth genedlaethol a chanllawiau*

2 Strategaeth IAP genedlaethol
3 Canllawiau IAP

*Cynlluniau IAP cyrff cyhoeddus rhestredig*

4 Cynlluniau IAP

*Cynghorydd i Weinidogion Cymru*

5 Y cynghorydd IAP

*Adrodd*

6 Adroddiadau gan gyrff cyhoeddus rhestredig
7 Adroddiadau gan Weinidogion Cymru

*Cyffredinol*

8 Ystyr "corff cyhoeddus rhestredig"
9 Rheoliadau
10 Dod i rym
11 Enw byr

Atodlen 1 - y cynghorydd IAP

# Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)

[FEL Y'I CYFLWYNWYD]

Deddf gan Senedd Cymru i hybu'r defnydd o Iaith Arwyddion Prydain yng Nghymru.

**Gan ei fod wedi ei basio gan Senedd Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Fawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

*Hybu IAP*

**1 Dyletswydd Gweinidogion Cymru i hybu IAP**

Rhaid i Weinidogion Cymru hybu a hwyluso'r defnydd o Iaith Arwyddion Prydain ("IAP").

*Strategaeth genedlaethol a chanllawiau*

**2 Strategaeth IAP genedlaethol**

(1) Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd o dan adran 1, rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi strategaeth genedlaethol ("strategaeth IAP") sy'n disgrifio sut y maent yn bwriadu—

(a) hybu a hwyluso'r defnydd o IAP wrth arfer eu swyddogaethau;

(b) annog cyrff cyhoeddus rhestredig i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP wrth arfer eu swyddogaethau (gweler adran 3).

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cyhoeddi'r strategaeth IAP o fewn 18 mis sy'n dechrau â'r diwrnod drannoeth y dyddiad y mae'r Ddeddf hon yn cael ei dwyn i rym;

(b) adolygu'r strategaeth IAP o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o 6 blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl i'r strategaeth gael ei chyhoeddi gyntaf ac, os ydynt yn ei diwygio, cyhoeddi'r fersiwn ddiwygiedig.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) gosod y strategaeth IAP, ac unrhyw fersiwn ddiwygiedig ohoni, gerbron Senedd Cymru, a

(b) sicrhau ei bod ar gael yn IAP.

(4) Cyn cyhoeddi'r strategaeth IAP, ac unrhyw fersiwn ddiwygiedig ohoni, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol—

(a) y cynghorydd IAP (gweler adran 5), a

(b) unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

**3 Canllawiau IAP**

Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) dyroddi canllawiau i gyrff cyhoeddus rhestredig ynghylch sut y cânt hybu a hwyluso'r defnydd o IAP wrth arfer eu swyddogaethau, a

(b) sicrhau eu bod ar gael yn IAP.

*Cynlluniau IAP cyrff cyhoeddus rhestredig*

**4 Cynlluniau IAP**

(1) Rhaid i gorff cyhoeddus rhestredig lunio a chyhoeddi cynllun IAP—

(a) sy’n disgrifio sut y mae’n bwriadu hybu a hwyluso’r defnydd o IAP wrth arfer ei swyddogaethau;

(b) sy’n disgrifio sut y mae’n bwriadu dilyn canllawiau a ddyroddir o dan adran 3, neu’n esbonio pam nad yw’n bwriadu gwneud hynny;

(c) sy’n cynnwys unrhyw wybodaeth arall a ragnodir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau.

(2) Rhaid i’r corff cyhoeddus rhestredig gyhoeddi ei gynllun o fewn 12 mis sy’n dechrau â’r diwrnod ar ôl i’r strategaeth IAP gael ei chyhoeddi yn unol ag adran 2(2)(a).

(3) Rhaid i’r corff cyhoeddus rhestredig adolygu ei gynllun—

(a) os yw’n cael ei gyfarwyddo i wneud hynny gan Weinidogion Cymru;

(b) ar ôl i unrhyw fersiwn ddiwygiedig o’r strategaeth IAP gael ei chyhoeddi.

(4) Rhaid i gyfarwyddyd o dan is-adran 3(a) ddatgan y rhesymau dros roi’r cyfarwyddyd.

(5) Os yw’r corff cyhoeddus rhestredig yn penderfynu diwygio ei gynllun yn dilyn adolygiad, rhaid iddo gyhoeddi’r fersiwn ddiwygiedig o’r cynllun cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol.

(6) Cyn cyhoeddi ei gynllun neu unrhyw fersiwn ddiwygiedig ohono, rhaid i’r corff cyhoeddus rhestredig ymgynghori ag unrhyw bersonau y mae’n ystyried eu bod yn briodol.

(7) Rhaid i’r corff cyhoeddus rhestredig anfon unrhyw gynllun a gyhoeddir o dan yr adran hon at Weinidogion Cymru a sicrhau ei fod ar gael yn IAP.

*Cynghorydd i Weinidogion Cymru*

**5 Y cynghorydd IAP**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru benodi person i fod yn gynghorydd IAP iddynt, a phersonau i fod yn aelodau panel i gynorthwyo’r cynghorydd IAP.

(2) Wrth benodi person yn gynghorydd IAP, rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni bod y person a benodir yn gallu cyfathrebu’n effeithiol yn IAP ac yn ei defnyddio.

(3) Cyn penodi person yn aelod o’r panel, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â’r cynghorydd IAP.

(4) Caiff y cynghorydd IAP—

(a) darparu gwybodaeth neu gyngor i Weinidogion Cymru mewn perthynas â’u swyddogaethau o dan y Ddeddf hon;

(b) darparu gwybodaeth neu gyngor, gyda chytundeb Gweinidogion Cymru, i unrhyw berson mewn perthynas â hybu a hwyluso’r defnydd o IAP yng Nghymru;

(c) ymgynghori â'r panel mewn perthynas ag unrhyw wybodaeth neu gyngor sydd i'w darparu neu ei ddarparu yn unol â pharagraffau (a) neu (b).

(5) Caiff y cynghorydd IAP ddarparu'r wybodaeth neu'r cyngor a grybwyllir yn is-adran (4)(a) ohono ei hun neu mewn ymateb i gais a wneir gan Weinidogion Cymru.

(6) Pan fo'r cynghorydd IAP yn cael cais gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (5), rhaid i'r cynghorydd ddarparu'r wybodaeth neu'r cyngor cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(7) Os yw'r cynghorydd IAP yn gofyn i gorff cyhoeddus rhestredig ddarparu gwybodaeth i'r cynghorydd at ddiben arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r cynghorydd, rhaid i'r corff gydymffurfio â'r cais oni bai ei fod yn ystyried y byddai gwneud hynny yn gwrthdaro â'i ddyletswyddau neu'n cael effaith andwyol ar arfer ei swyddogaethau.

(8) Os yw corff cyhoeddus rhestredig yn penderfynu peidio â chydymffurfio â chais o dan is-adran (7), rhaid iddo esbonio pam i'r cynghorydd IAP yn ysgrifenedig.

(9) Mae'r Atodlen yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch y cynghorydd IAP a'r panel.

*Adrodd*

**6 Adroddiadau gan gyrff cyhoeddus rhestredig**

(1) O fewn 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl iddo gyhoeddi ei gynllun IAP o dan adran 4 neu unrhyw fersiwn ddiwygiedig ohono, rhaid i gorff cyhoeddus rhestredig lunio a chyhoeddi adroddiad—

(a) sy'n disgrifio'r hyn y mae wedi ei wneud i weithredu'r fersiwn ddiweddaraf o'r cynllun, a

(b) os nad yw wedi gweithredu rhywbeth, sy'n esbonio pam nad yw wedi gwneud hynny.

(2) Rhaid i'r corff cyhoeddus rhestredig anfon unrhyw adroddiad a gyhoeddir o dan yr adran hon at Weinidogion Cymru a sicrhau ei fod ar gael yn IAP.

**7 Adroddiadau gan Weinidogion Cymru**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi adroddiad sy'n asesu'r cynnydd a wnaed o ran hybu a hwyluso'r defnydd o IAP yn unol â'r Ddeddf hon.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cyhoeddi adroddiad o dan is-adran (1) o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o 3 blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl i'r strategaeth IAP gael ei chyhoeddi gyntaf,

(b) gosod yr adroddiad gerbron Senedd Cymru, ac

(c) sicrhau bod yr adroddiad ar gael yn IAP.

(3) At ddiben llunio adroddiad o dan yr adran hon, caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i gorff cyhoeddus rhestredig ddarparu iddynt unrhyw wybodaeth a bennir ganddynt yn ysgrifenedig.

(4) Wrth lunio adroddiad o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol—

(a) y cynghorydd IAP, a

(b) unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

*Cyffredinol*

**8 Ystyr "corff cyhoeddus rhestredig"**

(1) At ddibenion y Ddeddf hon, mae pob un o'r personau a ganlyn yn "corff cyhoeddus rhestredig"—

(a) cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

(b) Bwrdd Iechyd Lleol;

(c) yr Ymddiriedolaethau GIG a ganlyn—

(i) Iechyd Cyhoeddus Cymru;

(ii) Felindre;

(iii) Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru;

(d) yr awdurdodau iechyd arbennig a ganlyn a sefydlwyd o dan adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42)—

(i) Iechyd a Gofal Digidol Cymru;

(ii) Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio is-adran (1)—

(a) drwy ychwanegu awdurdod Cymreig datganoledig,

(b) drwy ddileu corff cyhoeddus rhestredig, neu

(c) drwy ddiwygio'r disgrifiad o gorff cyhoeddus rhestredig.

(3) Cyn gwneud rheoliadau sy'n diwygio is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol—

(a) y cynghorydd IAP;

(b) unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

(4) Yn is-adran (2)(a), mae i "awdurdod Cymreig datganoledig" yr ystyr a roddir i "devolved Welsh authority" yn adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

**9 Rheoliadau**

(1) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon—

(a) yn arferadwy drwy offeryn statudol Cymreig;

(b) yn cynnwys y pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol;

(c) yn cynnwys y pŵer i wneud darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth atodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

(2) Mae rheoliadau o dan adran 8(2) yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

(3) Mae rheoliadau o dan adran 4(1)(c) yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd.

**10 Dod i rym**

Daw’r Ddeddf hon i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

**11 Enw byr**

Caniateir cyfeirio at y Ddeddf hon fel—

(a) Deddf Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) 2026, neu

(b) the British Sign Language (Wales) Act 2026.

## ATODLEN 1

*(fel y'i cyflwynir gan adran 5)*

## Y CYNGHORYDD IAP

*Y cynghorydd IAP*

1 Mae'r person a benodir yn gynghorydd IAP yn dal ei swydd yn unol â thelerau'r penodiad.

2 Caiff Gweinidogion Cymru dalu cydnabyddiaeth ariannol, treuliau a lwfansau i'r cynghorydd IAP.

3 Caiff Gweinidogion Cymru dalu—

(a) pensiynau i'r cynghorydd IAP, neu mewn cysylltiad ag ef;

(b) symiau ar gyfer darparu pensiynau neu tuag at ddarparu pensiynau i bersonau sydd wedi bod yn gynghorydd IAP, neu mewn cysylltiad â phersonau o'r fath.

4 Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu i'r cynghorydd IAP y staff, yr adeiladau, y cyfarpar a'r cyfleusterau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod neu eu bod yn angenrheidiol ar gyfer arfer swyddogaethau'r cynghorydd IAP.

*Y panel*

5 Mae person a benodir yn aelod o'r panel yn dal ei swydd yn unol â thelerau'r penodiad.

6 Caiff Gweinidogion Cymru dalu cydnabyddiaeth ariannol, treuliau a lwfansau i berson a benodir yn aelod o'r panel.